ADRAN 153 O DDEDDF CYNLLUNIO 2008
RHEOLIAD 6 O REOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (NEWID A DIRYMU GORCHMYNION CYDSYNIAD DATBLYGU) 2011 RHYBUDD O GAIS I WNEUD NEWID ANSYLWEDDOL I'R GORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU A GANLYN:
GORCHYMYN FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MÔR 2023 RHIF1033

Hysbysir drwy hyn bod Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr Cyfyngedig o Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire SN5 6PB ("yr Ymgeisydd") yn ceisio, drwy gais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net, gwneud newid ansylweddol (y "Cais") i Orchymyn Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr 2023 (fel y'i diwygiwyd) ("y Gorchymyn").

Rhoddodd y Gorchymyn gydsyniad datblygu ar gyfer fferm wynt alltraeth ym Môr Iwerddon tua 11 cilometr o arfordir Gogledd Cymru. Mae'r Gorchymyn yn awdurdodi'r Ymgeisydd i gaffael tir a hawliau'n orfodol i gyflawni prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr. Mae'r Cais yn ceisio diwygio'r terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael yn orfodol o dan y Gorchymyn o ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y Gorchymyn, i'r cyfnod o 7 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y Gorchymyn.

Mae dogfennau'r Cais ar gael i'w harchwilio, yn rhad ac am ddim, ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (sy'n cael ei chynnal ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) yma: https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/projects/EN010112?lang=cy. Mae nhw ar gael drwy glicio ar y tab "Dogfennau", yn ogystal ag ar wefan yr Ymgeisydd yn: https://awelymor.cymru/?lang=cy

Dylid gwneud unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r dogfennau a'r cynlluniau drwy ffonio 0800 1978232 neu anfon neges e-bost i awelymor@rwe.com

Gellir gweld a lawrlwytho dogfennau'r Cais yn rhad ac am ddim drwy fynd i wefan yr Ymgeisydd neu wefan yr Arolygiaeth Gynllunio gan ddefnyddio'r dolenni uchod. Fel arall, gellir cael copïau papur o'r dogfennau gan yr Ymgeisydd am £150 ar gais drwy ffonio neu e-bostio'r cysylltiadau uchod.

Bydd y dogfennau a'r cynlluniau ar gael i'w harchwilio tan 23:59 04 Rhagfyr 2026.

Er budd yr amgylchedd, mae'n well i unrhyw sylwadau am y Cais gael eu hanfon dros e-bost at yr Arolygiaeth Gynllunio awelymor@planninginspectorate.gov.uk Fel arall, gellir anfon sylwadau yn ysgrifenedig at: The Planning Inspectorate National Infrastructure Team c/o QUADIENT, 69 Buckingham Avenue, Slough, SL1 4PN. Nodwch [ENW010112] - Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr 2023 - Newid Ansylweddol 1' ar unrhyw ohebiaeth. Os ydych chi'n cael trafferth cyflwyno sylwadau, anfonwch e-bost at awelymor@planninginspectorate.gov.uk neu ffoniwch 0303 444 5000 a bydd aelod o dîm achos yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu helpu.

Sylwch y bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu trin yn unol â Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data a'u cyhoeddi ar dudalen berthnasol Porth Cynllunio Seilwaith yr Arolygiaeth Gynllunio (https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/projects/EN010112?lang=cy) gyda'r holl wybodaeth bersonol wedi'i thynnu.

Rhaid i unrhyw sylwadau ddod i law yr Arolygiaeth Gynllunio erbyn 23:59 ar 04 Rhagfyr 2026.